Adroddiad i'r:	Pwyllgor Cynllunio
Dyddiad y cyfarfod	5 Hydref 2022
Aelod Arweiniol / Swyddog	Emlyn Jones Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad
Awdur yr adroddiad	Denise Shaw
Teitl	Cais rhif: 47/2020/0593. Datblygu tir i greu parc gwyliau, yn cynnwys trawsnewid y clwb presennol yn adeilad ar gyfer derbynfa, codi clwb newydd, adeilad byncws, 7 uned pod gwyliau, 23 caban gwyliau dwy ystafell wely, 7 caban gwyliau tair ystafell wely, a 7 caban gwyliau pedair ystafell wely. Gwaith i'r fynedfa bresennol, ffurfio llwybrau mewnol, 2 bwll dŵr bywyd gwyllt, maes parcio, tirlunio a gwaith cysylltiedig. Hen Glwb Rygbi'r Rhyl, Ffordd Waen, Rhuddlan.

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â chais cynllunio sydd wedi cael ei alw i mewn ar gyfer penderfyniad gan Weinidogion Cymru cyn i'r Pwyllgor Cynllunio wneud penderfyniad ffurfiol ar y cais.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Yn unol â gweithdrefnau ar gyfer penderfyniadau'r pwyllgor a wrthodir yn groes i Argymhelliad Swyddog, pwrpas yr adroddiad hwn yw ceisio enwebiadau gan Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio i gynrychioli'r Cyngor yn y Gwrandawiadau ar gyfer cais rhif: 47/2020/0593 sydd wedi cael ei alw i mewn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer penderfyniad gan Weinidogion Cymru.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Ceisio penderfyniad.

3.1. Penderfynodd yr Aelodau enwebu dau Aelod i gynrychioli'r Cyngor yn sesiynau'r Gwrandawiad.

4. Manylion yr adroddiad

Gwybodaeth Gefndir

4.1. Bydd Aelodau'n cofio y cyfeiriwyd at gais rhif: 47/2020/0593 yn wreiddiol yng nghyfarfod mis Ebrill y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2021. Argymhelliad y Swyddog oedd cyflwyno caniatâd cynllunio, yn amodol ar orfodi amodau a llunio cytundeb cyfreithiol i sicrhau cyfraniad at ffyrdd mwy cynaliadwy o deithio.

4.2. Ar 13 Ebrill 2021, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru Gyfarwyddyd Erthygl 18 yn dilyn cais i alw'r cais cynllunio i mewn. Roedd y Cyfarwyddyd Erthygl 18 yn gofyn i'r Cyngor beidio â chyflwyno caniatâd cynllunio ar gyfer y cais, er mwyn rhoi amser i Weinidogion ystyried p'un a ddylid atgyfeirio'r cais i Weinidogion Cymru er mwyn iddynt wneud penderfyniad yn ei gylch.

4.3. Hysbyswyd yr Aelodau o'r Cyfarwyddyd Erthygl 18 trwy Adroddiad 'Gwybodaeth Hwyr' Pwyllgor Cynllunio mis Ebrill.

4.4. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ym mis Ebrill, penderfynodd Aelodau y dylid gohirio'r cais tan gyfarfod yn y dyfodol ar ôl i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad ar y cais galw i mewn.

4.5. Ar 24 Medi 2021, cyflwynodd Llywodraeth Cymru lythyr penderfyniad galw i mewn yn cynghori'r Gweinidog Newid Hinsawdd y dylai Gweinidogion Cymru benderfynu ar y cais cynllunio. Yna cafodd y cais ei atgyfeirio'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2021.

4.6. Gan nad yw'r cais hwn wedi cael ei drafod eisoes gan y Pwyllgor, cyflwynwyd adroddiad yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ym mis Rhagfyr 2021 i geisio penderfyniad gan y Pwyllgor Cynllunio ar gynnwys Datganiad Achos y Cyngor.

4.7. Penderfynwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ym mis Rhagfyr 2021:

“Cefnogi GWRTHOD cyflwyno caniatâd cynllunio ac y bydd Datganiad Achos y Cyngor yn adlewyrchu’r penderfyniad i wrthod i gynorthwyo Llywodraeth Cymru.”

4.8. Y **cynigydd** oedd y Cynghorydd Christine Marston (cyn Gynghorydd Ward lleol ac aelod o’r Pwyllgor Cynllunio). Pwysleisiodd ei bod yn teimlo fod y cais yn rhy fawr mewn cefn gwlad agored ac nad oedd yn cadw at bolisi cynllunio, a chynigodd fynd yn groes i argymhelliad y swyddog am y rhesymau canlynol. *Roedd y cais yn mynd yn groes i Bolisi Cynllunio PSE12, datblygu ar dir amaethyddol Gradd 3A, mynediad gwael drwy ddulliau heblaw ceir, nid yw’n cynnig cysylltiadau teithio llesol a mynediad gwael o’r briffordd.* **Eiliwyd** y cynnig i wrthod gan y Cynghorydd Peter Scott.

4.9. Ar 8 Awst 2022 derbyniodd y Cyngor y llythyr cychwyn gan Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylcheddol Cymru (PEDW), a wahoddodd y Cyngor i gyflwyno Datganiad Achos. Roedd y llythyr cychwyn hefyd yn nodi y bydd y cais yn mynd rhagddo i ddechrau erbyn y Weithdrefn Gwrandawiad.

4.10. Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2021, mae Swyddogion wedi paratoi Datganiad Achos yn amlinellu rhesymau’r Cyngor dros gefnogi gwrthodiad y caniatâd cynllunio, a gyflwynwyd i PEDW. Mae copi o’r Datganiad Achos i’w weld yn ATODIAD 1.

4.11. Rhoddodd PEDW ddyddiadau posibl ar gyfer sesiynau’r Gwrandawiad, sydd wedi’u trefnu ar gyfer dechrau mis Rhagfyr (5, 6 neu 8 Rhagfyr).

4.12. Yn unol â gweithdrefnau ar gyfer penderfyniadau’r Pwyllgor sy’n mynd yn groes i Argymhelliad y Swyddog, mae gofyn i ddau Aelod o’r Pwyllgor gynrychioli’r Cyngor yn sesiynau’r Gwrandawiad sy’n cefnogi Swyddogion, a cheisir penderfyniad gan y Pwyllgor i enwebu Aelodau i fynychu’r Gwrandawiadau.

5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Amherthnasol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd angen amser ar Swyddogion i baratoi ar gyfer sesiynau'r Gwrandawiad a briffio Aelodau, a bydd angen amser ar Swyddogion ac Aelodau i gymryd rhan yn sesiynau'r Gwrandawiad.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor, nid yn unig i gynnal datblygiadau cynaliadwy, ond hefyd i gymryd camau rhesymol i ymarfer ei swyddogaethau i gyflawni ei amcanion datblygu cynaliadwy (neu les). Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn orfodol dangos sut mae'r datblygiad yn cydymffurfio â'r Ddeddf mewn perthynas â phob cais y penderfynir arno.

7.2. Mae'r adroddiad ar y cais hwn wedi cymryd i ystyriaeth gofynion Adran 3 'Dyletswyddau llesiant i gyrff cyhoeddus' ac Adran 5 'Yr Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy' o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Caiff yr argymhelliad ei wneud yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf trwy ei gyfraniad tuag at amcan lles Llywodraeth Cymru o gefnogi cymunedau diogel, cydlynus a gwydn. Ystyrir felly na fyddai'r argymhelliad arfaethedig yn cael unrhyw effaith sylweddol nac annerbyniol ar gyflawni'r amcanion lles o ganlyniad i'r argymhelliad a gynigwyd.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cais cynllunio yn unol â'r dyletswyddau statudol a amlinellir yn y ddeddfwriaeth gynllunio.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Amherthnasol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Gallai methu â chymryd rhan yn sesiynau'r Gwrandawiad fod yn gyfle a fethwyd i Aelodau dynnu sylw'r Arolygydd Cynllunio a Gweinidogion Cymru at faterion allweddol ac ystyriaethau cynllunio perthnasol.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Yn unol â Rhan 2 o Gynllun Dirprwyo'r Cyngor, roedd angen atgyfeirio'r cais cynllunio er mwyn i'r Pwyllgor Cynllunio wneud penderfyniad ffurfiol yn ei gylch.

11.2. Yn unol â hynny, gan na wnaethpwyd penderfyniad ffurfiol gan y Cyngor mewn perthynas â'r cais cynllunio, bydd yn rhaid i'r Pwyllgor Cynllunio benderfynu ar gynnwys Datganiad Achos y Cyngor.